# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr Eitem:** | Strategaeth Llifogydd Lleol |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Swyddog Perthnasol:** | Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 11 Mehefin, 2024 |

## 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynni'r i'r Cabinet gymeradwyo mabwysiadu *Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol* ('Y Strategaeth') y Cyngor.

1.2 Derbyn hawl dirprwyiedig mewn ymgynghoriad â Aelod Cabinet i gwblhau y ddogfen ar dderbyn sylwadau Llywodraeth Cymru.

## 2. BETH YW'R RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

2.1 Mae'r angen i Awdurdodau Lleol baratoi Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y *Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010*. Mae gofyn i Gyngor Gywnedd adolygu y Strategaeth wreiddiol dyddiedig (2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru* a gyhoeddwyd yn 2020.

2.2 Cwblhawyd drafft o'r Strategaeth newydd yn gynharach eleni a cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnwys a ddaeth i ben ar y 6ed o Fai. Mae casgliadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1 ac sydd wedi eu ymgorffori i'r Strategaeth (gweler Atodiadau 2 a 3).

## 3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar achosion o lifogydd a graddfeydd erydiad gan i lefelau môr fod yn codi a stormydd a chyfnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

3.2 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei *Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur* ac mae'r cynllun yn cyfeirio at sut yr ydym fel Cyngor am ymateb i effeithiau newid hinsawdd, sydd yn cynnwys effeithiau llifogydd. Bydd y Strategaeth a'r *Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur* yn cyd-redeg, ac yn helpu i wireddu targedau'r naill a'r llall.

3.3 Cafodd y Strategaeth ei pharatoi yn gyson gyda fframwaith a chyfarwyddyd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae’r wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y brif ddogfen fel a ganlyn:

- Cyflwyniad, gan gynnwys pwrpas y Strategaeth
- Sut mae'r strategaeth yn ymateb i newid hinsawdd
- Cydgysylltu h.y. aliniad â pholisïau a chynlluniau eraill
- Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd
- Mesurau a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd i reoli risgiau
- Crynodeb o lifogydd hanesyddol yng Ngwynedd
- Crynodeb o risgiau llifogydd ac erydu arfordirol yng Ngwynedd
- Amcanion a Chamau Gweithredu Strategol
- Ariannu
- Rhaglenni Gwaith
- Monitro cynnydd
- Effeithiau amgylcheddol

3.4 Yn sail i’r ddogfen dros y blynyddoedd nesaf mae 5 brif amcan, a rhestr o weithredoedd sy’n adeiladau ar ein dulliau rheoli risg llifogydd presennol er mwyn cwrdd â’r amcanion yma.

Amcanion y Strategaeth yw:

*Amcan 1*: Anelu at leihau lefel y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd
*Amcan 2*: Datblygu dealltwriaeth bellach o'r perygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd
*Amcan 3*: Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd
*Amcan 4*: Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol
*Amcan 5*: Gweithio ar y cyd â'r holl Awdurdodau Rheoli Perygl eraill a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cyd-gysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol.

3.5 Un o’r prif weithredoedd sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth yw ein bwriad o baratoi rhaglenni gwaith cyfalaf hîr-dymor ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol, wedi eu rhannu yn rhaglenni mewndirol ac arfordirol. Byddwn yn diweddaru'r rhaglenni gwaith yma yn flynyddol a’u defnyddio er mwyn ethol cynlluniau ac astudiaethau i’w cynnwys ar y rhaglen rheoli risg llifogydd cenedlaethol.

3.6 Mae’r Strategaeth yn egluro y bydd y rhaglenni yn cael eu llunio yn bennaf yn ôl lefel y perygl o lifogydd/erydu arfordirol, ond y bydd ffactorau eraill megis cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor a’n gallu i wireddu cynlluniau hefyd yn dylanwadu. Er ein bod yn cydnabod mai Cyngor Gwynedd yw’r sefydliad arweiniol ar gyfer y cynlluniau a’r astudiaethau bydd wedi’u cynnwys ar ein rhaglenni, rydym yn rhagweld y bydd rhai prosiectau penodol yn golygu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill ac yn cyfarch cyfleoedd o’r fath.

3.7 Mae rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheoli’r tir a dŵr.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Daeth cyfnod 6-wythnos o ymgynghori cyhoeddus i ben ar y 6ed o Fai. Mae crynodeb o gynnwys a chanlyniadau yr ymgynghoriad yma wedi cynnwys fel atodiad (Atodiad 1).

4.2 Prif fwriad oedd ceisio barn y cyhoedd ac awdurdodau a sefydliadau partner ar gynnwys y Strategaeth, yn enwedig y meysydd canlynol:

- Ystyried newid hinsawdd ar beryglon llifogydd ac erydu arfordirol
- Eglurder o rolau a chyfrifoldebau
- Dulliau a ddefnyddir i amcangyfrif risgiau llifogydd ac erydu arfordirol
- Addasrwydd amcanion a chamau gweithredu.

4.3 Cafwyd 77 ymateb i'r ymgynhoriad, yn benaf gan unigolion sy'n byw o fewn Wynedd (h.y. yn hytrach na ymatebion gan awdurdodau a sefydliadau partner, cyngorau lleol neu fusnesau).

4.4 Ar y cyfan ni chredir fod yr ymatebion yr ymgynghoriad yn gwneud achos i wneud newidiadau sylweddol i'r Strategaeth na'r dogfennau cysylltiedig, fodd bynnag mae rhai cynigion wedi ei gwneud ar gyfer adolygu neu addasu y dogfennau er mwyn cyfarch y sylwadau a fynegwyd, sef:

i. Adolygu y Strategaeth er mwyn sicrhau fod awydd y Cyngor i reoli effeithiau newid hinsawdd o fewn eu gallu yn gwbwl amlwg.
ii. Adolygu dogfen y Strategaeth er mwyn sicrhau fod cyfeiriadau tuag at raglenni gwaith yn gwbwl amlwg.
iii. Adolygu y Strategaeth er mwyn sirchau fod ein awydd ar gyfer cyd-weithio wedi ei gyfleu yn glir.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Unwaith bydd y Cabinet wedi cymeradwyo a mabwysiadu'r *Strategaeth* mae gofyn i ni gyflwyno'r strategaeth yn ffurfiol i Llywodraeth Cymru*.* Byddent wedyn yn adolygu'r ddogfen yn erbyn gofynion y Ddeddf Rheoli Dwr a Llifogydd 2010. Hyderwn bydd hyn wedi gwblhau cyn yr Haf.

5.2 Ar dderbyn casgliadau Llywodraeth Cymru, byddwn mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet yn cwblhau y ddogfen a rhoi'r strategaeth ar waith a chodi ymwybyddiaeth o fewn y fforymau ardal.

## 6. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

6.1 Cymru Lewyrchus: Datblygu cydnerthedd a lleihau risg i bobl a lleoedd, helpu'r economi a chynnal cyflogaeth hirdymor. Mae'r gwaith o adeiladu cynlluniau llifogydd yn creu swyddi a lleoedd mwy diogel i weithio a buddsoddi ynddynt.

6.2 Cymru Gydnerth: Ein bwriad wrth baratoi'r Strategaeth ydi datblygu cydnerthedd yn ein cymunedau a sicrhau lleoedd cynaliadwy, mwy diogel, gan helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Hefyd, mae'r cynlluniau yn darparu cyfle ar gyfer manteision ehangach fel gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

6.3 Cymru Iachach: Mae rhannu gwybodaeth am risg a beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd, ynghyd â'r gostyngiad gwirioneddol mewn risg i gartrefi, yn helpu i wella llesiant meddyliol. Gall cynlluniau helpu i greu cymunedau mwy deniadol a diogel i fyw a gweithio ynddynt a darparu manteision iechyd ehangach, fel gwella cyfleusterau hamdden ac amwynderau.

6.4 Cymru o Gymunedau Cydlynus: Mae lleihau risg llifogydd ac erydu arfordirol yn helpu i greu cymunedau diogel a deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Hefyd, mae gweithio'n agosach gyda chymunedau i drafod risg a chydweithio ar gynlluniau lliniaru yn helpu i ddod â phobl at ei gilydd a derbyn mwy o gyfrifoldeb ar y cyd.

6.5 Cymru sy'n Gyfrifol: Cefnogi dulliau cynaliadwy fel cynlluniau Rheoli Llifogydd yn Naturiol i leihau'r risg o lifogydd.

## 7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1 Mae asesiad effaith wedi ei gwblhau. Ni ystyrir y bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb na dyletswyddau cyffredinol. Mae'r Strategaeth yn anelu at adeiladu mwy o wydnwch o fewn y gymuned gyfan er mwyn gallu ymdopi â'r risg o lifogydd.

## 8. SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

Prif Swyddog Cyllid:

Mae'r Strategaeth Llifogydd Lleol yn ddogfen bwysig sy'n amlinellu'r risgiau a wynebir yng Ngwynedd, ac yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredu sydd yn eu lle i ymdrin â'r sefyllfa. Mae Rhan 13 o'r Strategaeth yn cyfeirio at faterion Cyllid ac rwyf yn fodlon â'i gywirdeb. Mae sicrhau cyllidebau refeniw a chyfalaf er mwyn ariannu'r cynlluniau angenrheidiol yn broses parhaus sy'n cynnwys ystyriaeth o gyllidebau blynyddol, y rhaglen gyfalaf, y Cynllun Rheoli Asedau a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Credaf fod y sefyllfa yma wedi cael ei egluro'n gryno a chlir yn y Strategaeth Llifogydd Lleol a gallaf gadarnhau y bydd dulliau ariannu cynlluniau unigol yn destun asesiad llawn wrth iddynt gael eu datblygu.

Swyddog Monitro:

Byddaf yn darparu unrhyw sylwadau o safbwynt priodoldeb yn y cyfarfod.